

## Deddfwriaeth Diogelu Data – Hawliau unigol

### 1. Diben

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi ein polisiâu ar hawliau unigolion o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Yr hawliau unigol a gwmpesir yn y polisi hwn yw:
- Yr hawl i gael gwybod
  - Yr hawl i fynediad (ceisiadau gwrthrych am wybodaeth)
  - Yr hawl i gywiro
  - Yr hawl i ddileu
  - Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
  - Yr hawl i gludadwyedd data
  - Yr hawl i wrthwynebu
  - Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phrosesu awtomataidd.
- 1.2 Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ynghyd â Deddf Diogelu Data 2018 (y Ddeddfwriaeth Diogelu Data) yn nodi cyfrifoldebau'r rhai sy'n delio â data personol a hawliau unigolion i gael mynediad at eu data personol. Mae'r holl staff (gan gynnwys staff dros dro), contractwyr ac unrhyw drydydd parti sy'n gweithio ar ran yr Awdurdod wedi'u rhwymo'n gytundebol i gydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data (DPL) a pholisïau perthnasol eraill yr Awdurdod.
- 1.3 Bydd yr Awdurdod yn darparu hyfforddiant priodol i staff fel y gallant gydymffurfio â'u cyfrifoldebau o dan y polisi hwn.
- 1.4 Anfonwch unrhyw geisiadau mewn perthynas â hawliau unigol neu am ragor o wybodaeth at y Pennaeth Llywodraethu.  
Suzanne Dodds  
Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol  
16-18 New Bridge St, Llundain EC4V 6AG  
Neu drwy e-bost at [suzanne.dodds@professionalstandards.org.uk](mailto:suzanne.dodds@professionalstandards.org.uk)

### 2. Cyflwyniad

- 2.1 Mae Deddfwriaeth Diogelu Data yn rhoi'r hawl i chi gael cadarnhad bod eich data'n cael ei brosesu, i wybod pa wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanoch chi, sut mae'r wybodaeth honno'n cael ei phrosesu, a chael mynediad i'r data hwn. Mae'n darparu fframwaith statudol i sicrhau y delir yn briodol â gwybodaeth bersonol.
- 2.2 Pwrpas caniatáu mynediad at ddata personol yw fel eich bod yn ymwybodol o gyfreithlondeb y prosesu ac yn gallu ei wirio.

### **3. Beth yw data personol**

- 3.1 Ystyr data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn neu berson naturiol adnabyddadwy ("Gwrthrych y Data"); mae person naturiol adnabyddadwy yn un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn benodol drwy gyfeirio at ddynodwr megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodwr ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth ffisegol, ffisiolegol, genetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw. Mae hyn yn cynnwys unrhyw fynegiant barn am yr unigolyn ac unrhyw arwydd o fwriadau'r Rheolydd Data (h.y. yr Awdurdod) neu unrhyw berson arall mewn perthynas â'r unigolyn.
- 3.2 Mae hyn yn berthnasol i wybodaeth a gedwir yn electronig ac â llaw.

### **4. Yr hawl i gael gwybod**

- 4.1 Mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i fod yn dryloyw ynghylch sut rydym yn defnyddio data personol.
- 4.2 Rydym yn hysbysu pobl sut rydym yn defnyddio eu data personol trwy ein datganiad preifatrwydd <https://www.professionalstandards.org.uk/privacy-policy>. Mae'n bosibl y byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth arall ar gael yn dibynnu ar yr amgylchiadau.
- 4.3 Bydd gwybodaeth am sut i wneud cais yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Byddwn yn parhau i adolygu pa ddeunyddiau eraill a allai fod ar gael yn rhesymol i hysbysu Gwrthrychau Data am sut i arfer hawliau o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

### **5. Hawl mynediad (cais gwrthrych am wybodaeth)**

#### **Beth yw polisi cyffredinol yr Awdurdod ar ddarparu gwybodaeth?**

- 5.1 Rydym yn croesawu'r hawliau mynediad at wybodaeth a nodir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Rydym wedi ymrwmo i weithredu'n agored ac i ymateb i bob cais am wybodaeth. Rydym felly'n croesawu ceisiadau 'anffurfiol' a gall y rhain fod yn ffordd gyflymach a mwy effeithiol i chi gael mynediad at wybodaeth benodol. Byddwn yn esbonio i chi a allwn gydymffurfio ag unrhyw gais penodol.
- 5.2 Os dymunwch wneud cais gwrthrych am wybodaeth 'ffurfiol', yn unol â darpariaethau'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data, byddwn yn darparu'r canlynol i chi:
  - Cadarnhad bod eich data yn cael ei brosesu
  - Mynediad at eich data personol
  - Gwybodaeth atodol arall, fel y nodir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

## **Sut ydych chi'n gwneud cais hawl mynediad (cais gwrthrych am wybodaeth)?**

- 5.3 Rhaid gwneud cais gwrthrych am wybodaeth ("SAR") yn ysgrifenedig, byddwn yn gofyn i chi ddarparu eich enw llawn a chyfeiriad cyswllt (naill ai cyfeiriad post neu gyfeiriad e-bost).
- 5.4 Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu prosesu eich cais yn ddi-oed, efallai y byddai'n ddefnyddiol darparu'r wybodaeth ganlynol gyda'ch cais:
  - Eich enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt
  - Unrhyw wybodaeth a ddefnyddir gan y sefydliad i'ch adnabod neu i'ch gwahaniaethu oddi wrth eraill o'r un enw (rhifau cyfrif, rhifau adnabod unigryw ac ati)
  - Manylion y wybodaeth benodol sydd ei hangen arnoch ac unrhyw ddyddiadau perthnasol.
- 5.5 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall unigolion geisio arfer eu hawliau gwrthrych am wybodaeth mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd (gan gynnwys drwy ysgrifennu, ffôn ac e-bost). Fodd bynnag, oherwydd y gofyniad statudol i fod yn fodlon ynghylch hunaniaeth yr ymgeisydd (ac er mwyn cynnal trywydd archwilio mewn cysylltiad â chais), bydd yr Awdurdod fel arfer yn gofyn i unrhyw ddarpar ymgeisydd ddarparu cadarnhad ysgrifenedig (drwy e-bost neu lythyr).

## **Cadarnhad o Hunaniaeth**

- 5.6 Rydym yn trin Data Personol sensitif a chyfrinachol fel mater o drefn, a gall ei brosesu a'i ddatgelu fod yn ôl-effeithiau i'r unigolion dan sylw. Yn unol â hynny, ni fyddwn yn symud SAR ymlaen nes ei fod yn fodlon ynghylch hunaniaeth yr ymgeisydd. Byddwn yn gofyn yn rheolaidd am gopi o basbort, trwydded yrru, cyfriflen banc neu brawf adnabod arall.
- 5.7 Lle bo'r Awdurdod yn fodlon fel arall ynghylch pwy yw'r sawl sy'n gwneud y cais (er enghraifft, os gwnaed cais gan weithiwr presennol), gallwn ddewis hepgor y gofyniad i'r ymgeisydd ddarparu prawf adnabod. Y Pennaeth Llywodraethu fydd yn penderfynu hepgor prawf adnabod.

## **Beth yw'r amserlen ar gyfer ymateb i geisiadau gwrthrych am wybodaeth?**

- 5.8 Byddwn yn cofnodi'r dyddiad y derbyniwyd y cais (a chadarnhawyd hunaniaeth yr ymgeisydd).
- 5.9 Byddwn yn ceisio darparu'r wybodaeth i chi cyn gynted â phosibl a dim hwyrach na mis o'i derbyn. Os yw cais yn arbennig o gymhleth neu fod nifer o geisiadau wedi'u cyflwyno, gallwn ymestyn yr amser ymateb hyd at ddau fis arall. Fodd bynnag, os bydd hyn yn angenrheidiol byddwn yn cysylltu â chi o fewn mis i'ch cais gwreiddiol i'ch hysbysu o hyn ac i egluro'r rhesymau pam. Byddwn yn ceisio darparu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn gynted â phosibl o fewn y cyfnod hwnnw ac efallai y byddwn yn gwneud datgeliad gwybodaeth 'fesul cam'.

- 5.10 Byddwn yn eich hysbysu yn ddi-oed, a dim hwyrach na mis ar ôl derbyn y cais, os nad ydym yn bwriadu gweithredu mewn ymateb i'r cais, gan gynnwys y rhesymau pam nad yw'r Awdurdod yn bwriadu cymryd camau mewn cysylltiad â'r cais a'r hawl i wneud cwyn gyda'r ICO neu geisio rhwymedi barnwrol.

### **Beth ydym yn ei wneud pan fyddwn yn derbyn cais gwrthrych am wybodaeth?**

#### ***Coladu gwybodaeth***

- 5.11 Byddwn yn cynnal chwiliad rhesymol a chymesur ar gyfer y data personol y gofynnir amdano, ar y cyd â staff perthnasol eraill a fydd yn gyfrifol am gynorthwyo'r tîm i ddod o hyd i unrhyw ddata personol perthnasol a'i echdynnu.
- 5.12 Byddwn yn gwirio bod gennym ddigon o wybodaeth i ddod o hyd i'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani. Os teimlwn fod angen mwy o wybodaeth arnom i egluro'r cais, yna byddwn yn gofyn i chi ar unwaith.
- 5.13 Pan fyddwn yn prosesu llawer iawn o wybodaeth amdanoch efallai y byddwn yn gofyn am fanylion y wybodaeth y mae'r cais yn ymwneud â hi.

#### ***Cyhoeddi ein hymateb***

- 5.14 Unwaith y bydd unrhyw ymholiadau sydd gan yr Awdurdod ynghylch y wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'u datrys, bydd copi o'r wybodaeth yn cael ei roi i chi.
- 5.15 Cyn rhannu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â thrydydd partïon, lle bo'n bosibl byddwn yn gwneud gwybodaeth sy'n adnabod trydydd partïon yn ddienw oni bai ei bod yn rhesymol datgelu'r wybodaeth honno neu fod gennym eu caniatâd. Er bod yr hawl o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data i "ddata personol", yn hytrach na dogfennau, byddwn, lle bo'n briodol ac fel mater o ddisgresiwn, yn ceisio darparu gwybodaeth gyd-destunol neu ddogfennau cyfan i'ch helpu i ddeall eich gwybodaeth.
- 5.16 Byddwn yn esbonio unrhyw dermau neu fyrfoddau cymhleth sydd yn y wybodaeth pan gaiff ei rhannu gyda chi. Oni nodir yn wahanol, byddwn hefyd yn darparu copi o unrhyw wybodaeth yr ydych wedi'i gweld o'r blaen.
- 5.17 Lle rydym yn cadw data am Wrthrych Data, bydd ymateb yr Awdurdod yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:
- Diben y prosesu
  - Categoriâu'r data personol dan sylw
  - Y derbynwyr neu'r categorïau o dderbynyddion y mae'r data personol wedi'i ddatgelu neu y bydd yn cael ei ddatgelu iddynt, yn enwedig derbynwyr mewn trydydd gwledydd neu sefydliadau rhyngwladol
  - Lle bo modd, y cyfnod a ragwelir ar gyfer storio'r data personol, neu, os nad yw'n bosibl, y meini prawf a ddefnyddir i bennu'r cyfnod hwnnw

- Bodolaeth yr hawl i ofyn i'r rheolydd gywiro neu ddileu data personol neu gyfyngu ar brosesu data personol sy'n ymwneud â gwrthrych y data neu wrthwynebu prosesu o'r fath
  - Yr hawl i gyflwyno cwyn gyda'r Awdurdod goruchwylio
  - Lle nad yw'r data personol yn cael ei gasglu oddi wrth wrthrych y data, unrhyw wybodaeth sydd ar gael am eu ffynhonnell
  - Bodolaeth gwneud penderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio, ac, o leiaf yn yr achosion hynny, gwybodaeth ystyrlon am y rhesymeg dan sylw, yn ogystal ag arwyddocâd a chanlyniadau prosesu o'r fath ar gyfer gwrthrych y data
  - Pan fo data personol yn cael ei drosglwyddo i drydedd wlad neu sefydliad rhyngwladol, bydd gan wrthrych y data yr hawl i gael gwybod am y mesurau diogelu priodol yn unol ag Erthygl 46 sy'n ymwneud â'r trosglwyddo
  - Esboniad ynghylch a yw unrhyw eithriadau wedi'u cymhwysu i'r Data Personol sydd gennym, a pham.
- 5.18 Bydd unrhyw ddewisiadau gan wrthrych y data yn cael eu hystyried wrth benderfynu ym mha fformat y caiff y wybodaeth ei datgelu. Lle mae'r cais wedi'i wneud drwy ddulliau electronig (gan gynnwys e-bost), yn y lle cyntaf byddwn yn cyfathrebu ein hymateb mewn fformat electronig, gan ddefnyddio PDF neu fformatau hygyrch eraill i ddarparu data personol.
- 5.19 Bydd mesurau diogelwch priodol yn cael eu cymryd i ddiogelu data yn ystod ei ddatgelu, gan gynnwys mecanweithiau trosglwyddo wedi'u hamgryptio. Lle bo'n bosibl, bydd y wybodaeth yn cael ei datgelu mewn fformat electronig diogel, darllenadwy er mwyn lleihau costau, darparu trywydd archwilio, diogelu'r amgylchedd, a hybu diogelwch y wybodaeth. Bydd unrhyw ddata personol a ddatgelir drwy gopi caled yn cael ei anfon yn defnyddio dosbarthiad arbennig neu drwy negesydd neu ar gyfrwng electronig wedi'i amgryptio.

### **A fydd ffi?**

- 5.20 Bydd gwybodaeth fel arfer yn cael ei darparu am ddim.

### **A oes unrhyw sail ddibynadwy ar gyfer peidio cydymffurfio â chais gwrthrych am wybodaeth?**

#### ***Eithriadau***

- 5.21 Unwaith y bydd yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i chanfod, bydd y tîm Llywodraethu yn adolygu'r data cyn ei ddatgelu a bydd yn gyfrifol am benderfynu a oes unrhyw eithriadau yn berthnasol o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data.
- 5.22 Yn unol ag eithriadau a ddarperir o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, efallai na fydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â SAR (yn llawn neu'n rhannol) mewn nifer o amgylchiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lle bo'r wybodaeth a geisir yn ddata cymysg sy'n ymwneud â'r ceisydd a gwrthrych data adnabyddadwy arall na ellir ei wneud yn ddiennw ac nad oes gan yr Awdurdod ganiatâd yr ail wrthrych data i ryddhau'r wybodaeth sydd hefyd yn ymwneud â nhw; ac nid yw'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i ddatgelu'r wybodaeth
- Lle byddai'r datgeliad yn niweidio atal neu ganfod trosedd neu ddal neu erlyn troseddwr, gweithgareddau casglu treth neu weithgareddau tebyg neu faterion gwrth-dwyll
- Lle byddai'r datgeliad yn niweidio swyddogaethau rheoleiddio
- Lle bo'r wybodaeth yn Ddata Personol y gellid cynnal hawliad am fraint broffesiynol gyfreithiol mewn perthynas ag ef mewn achos cyfreithiol
- Lle bo'r wybodaeth yn Ddata Personol sy'n cynnwys cofnodion o fwriadau'r Awdurdod mewn trafodaethau â gwrthrych y data, i'r graddau y byddai'r datgeliad yn debygol o niweidio'r trafodaethau hynny
- Lle byddai'r datgeliad yn achosi niwed meddyliol neu gorfforol difrifol i'r ceisydd neu berson arall.

5.23 Wrth asesu a ddylid datgelu data cymysg heb ganiatâd ai peidio, man cychwyn yr Awdurdod fydd peidio â datgelu. Wrth bwysu a mesur i ba raddau y dylid datgelu unrhyw ddata cymysg, bydd yr Awdurdod yn ystyried yr holl amgylchiadau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ffactorau statudol:

- Y math o wybodaeth a fyddai'n cael ei datgelu
- Unrhyw ddyletswydd o gyfrinachedd sy'n ddyledus i'r unigolyn arall
- Unrhyw gamau a gymerir gan yr Awdurdod gyda golwg ar geisio caniatâd yr unigolyn arall
- A yw'r unigolyn arall yn gallu rhoi caniatâd
- Unrhyw achos penodol o wrthod caniatâd gan yr unigolyn arall.

5.23 Gall eithriadau eraill hefyd fod yn berthnasol fesul achos.

### ***Ceisiadau di-sail neu ormodol amlwg***

5.24 Os yw cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, yn enwedig os yw'n ailadroddus, gall yr Awdurdod naill ai godi ffi resymol gan ystyried costau gweinyddol darparu'r wybodaeth neu wrthod ymateb i'r cais.

5.25 Lle byddwn yn gwrthod ymateb i'r cais byddwn yn egluro pam ein bod wedi gwneud hynny ac yn rhoi gwybod am eich hawl i gwyno i'r ICO ac i rwymedi barnwrol. Byddwn yn gwneud hyn heb oedi ac o fewn mis. I gael rhagor o wybodaeth am gwynion, gweler adran 14 y ddogfen hon.

5.26 Wrth benderfynu a yw ceisiadau lluosog yn ormodol (neu'n cael eu gwneud ar adegau afresymol), a pha gamau i'w cymryd o ganlyniad, bydd yr Awdurdod yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys y canlynol:

- Natur y data (gan gynnwys a yw'n arbennig o sensitif)

- Pwrpas y prosesu – gan gynnwys p'un a yw'r prosesu yn debygol o achosi niwed i'r ymgeisydd
- Pa mor aml y caiff y data ei newid, gan gynnwys a yw'r data'n debygol o fod wedi newid neu gael ei newid ers y cais blaenorol
- Yr amser sydd wedi mynd heibio ers y cais blaenorol;
- Swm y wybodaeth dan sylw
- Unrhyw resymau a roddwyd gan yr ymgeisydd dros ddymuno'r un wybodaeth eto
- A fyddai modd datgelu'r wybodaeth drwy sianeli eraill.

5.27 Cedwir cofnod o benderfyniad yr Awdurdod, a rhoddir yr esboniad hwn i'r ymgeisydd. Gall yr ymgeisydd ofyn am adolygiad o'r penderfyniad.

## **6. Beth os byddwch yn nodi gwall yn ein cofnodion (yr hawl i gywiro)?**

- 6.1 Os byddwn yn cytuno bod y wybodaeth yn anghywir neu'n anghyflawn, byddwn yn ei chywiro a lle bo'n ymarferol, yn dinistrio'r wybodaeth anghywir. Sylwch nad yw gwahaniaeth barn neu ddehongliad yr un peth ag anghywirdeb, ond efallai y byddwn yn cofnodi eich anghytundeb â'r data dan sylw.
- 6.2 Os ydym wedi datgelu'r data personol dan sylw i drydydd parti byddwn yn hysbysu'r trydydd parti o'r cywiriad oni bai bod hyn yn amhosibl neu'n golygu ymdrech anghymesur. Ar gais byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw dderbynwyr trydydd parti.
- 6.3 Byddwn yn ymateb i unrhyw gais am gywiriad o fewn mis er ein bod yn cadw'r hawl i ymestyn hyn am ddau fis pan fo'r cais yn arbennig o gymhleth.
- 6.4 Os na fyddwn yn cytuno bod y wybodaeth yn anghywir neu os na allwn ddileu'r wybodaeth, byddwn yn gwneud nodyn o'r camgymeriad honedig ac yn ei gadw ar ffeil. Byddwn hefyd yn esbonio pam mae hyn yn wir ac yn rhoi gwybod am eich hawl i gwyno i'r ICO ac i rwymedi barnwrol. Byddwn yn gwneud hyn heb oedi ac o fewn mis. I gael rhagor o wybodaeth am gwynion, gweler adran 14 y ddogfen hon.

## **7. Beth os ydych am i'r Awdurdod roi'r gorau i brosesu eich data a'i ddileu (yr hawl i ddileu)?**

### **Beth yw'r hawl i ddileu**

- 7.1 Gelwir yr hawl i ddileu hefyd yn 'hawl i gael eich anghofio'. Mewn gwirionedd, dyma'r hawl i ofyn am ddileu neu ddiddymu eich data personol lle nad oes rheswm cymhellol i'r Awdurdod ei brosesu (neu barhau i'w brosesu).

### **Pryd mae'n berthnasol**

- 7.2 Nid yw'r hawl i ddileu yn 'hawl i gael eich anghofio' awtomatig a dim ond o dan rai amgylchiadau y mae eich hawl i ddileu yn berthnasol. Mae'r amgylchiadau y gall fod yn berthnasol iddynt fel a ganlyn;



- Nid yw bellach yn angenrheidiol at y dibenion y'i casglwyd yn wreiddiol
- Lle mae'r Awdurdod yn dibynnu ar ganiatâd ar gyfer prosesu a'ch bod yn tynnu'r caniatâd hwn yn ôl
- Lle rydych yn gwrthwynebu prosesu eich data personol ac nad oes budd cyfreithlon gor-redol i barhau â'r prosesu
- Ni phroseswyd y data personol yn unol â Deddfwriaeth Diogelu Data ac felly mae'n anghyfreithlon
- Mae angen dileu er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol arall
- Mae'r data personol yn cael ei brosesu mewn perthynas â chynnig gwasanaethau cymdeithas wybodaeth i blentyn (e.e. adborth a gesglir trwy ein cyfrif Twitter).

### Sefyllfaedd lle gall yr Awdurdod wrthod ystyried cais

7.3 Mae rhai amgylchiadau lle gall yr Awdurdod wrthod cydymffurfio â chais. Gall y rhain gynnwys y canlynol:

- I arfer yr hawl i ryddid mynegiant a gwybodaeth
- Lle mae angen y wybodaeth i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu dasg budd y cyhoedd
- Pan fo'r wybodaeth ar gyfer tasgau iechyd cyhoeddus er budd y cyhoedd
- Lle mae'r wybodaeth i'w harchifo er budd y cyhoedd neu at ddibenion ymchwil
- Lle cedwir y wybodaeth ar gyfer amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

### Sut i wneud cais

- 7.4 Os dymunwch wneud cais o'r fath dylech anfon y cais yn ysgrifenedig atom. Pan fyddwn yn derbyn y cais, byddwn yn anfon hysbysiad ysgrifenedig atoch naill ai ein bod wedi cydymffurfio â'ch cais, yn bwriadu cydymffurfio ag ef neu'n nodi i ba raddau y byddwn yn cydymffurfio ag ef a pham cyn gynted â phosibl.
- 7.5 Er nad yw'r hawl i ddileu wedi'i chyfyngu i amgylchiadau lle mae prosesu yn achosi niwed direswm neu sylweddol, byddai o gymorth i'n hystyriaethau pe gallech roi manylion unrhyw niwed y credwch ei fod neu y gallai ei achosi wrth wneud eich cais.
- 7.6 Rhoddir gofal ac ystyriaeth arbennig bob amser mewn perthynas â data personol plant ac efallai y byddwn yn cymryd cyngor cyfreithiol wrth dderbyn cais o'r fath.
- 7.7 Os ydym wedi datgelu'r data personol dan sylw i drydydd parti byddwn yn hysbysu'r trydydd parti o'r dilead oni bai bod hyn yn amhosibl neu'n golygu ymdrech anghymesur. Ar gais byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw dderbynwyr trydydd parti.



## 8. Beth os ydych am i'r Awdurdod gyfyngu ar brosesu eich data (yr hawl i gyfyngu ar brosesu)?

### Pryd mae'n berthnasol

- 8.1 Mae gennych hefyd hawl i ofyn i ni rwystro neu gyfyngu ar brosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau:
- Pan fyddwch yn herio cywirdeb y data personol, byddwn yn cyfyngu ar brosesu'r data hwn hyd nes y gallwn wirio ei gywirdeb
  - Lle rydych yn gwrthwynebu'r prosesu a bod angen amser arnom i ystyried a yw'r seiliau cyfreithlon dros brosesu yn gwrthwneud y gwrthwynebiad hwn
  - Lle mae'r prosesu yn anghyfreithlon ond eich bod yn gwrthwynebu dileu ac yn gofyn am gyfyngiad yn lle hynny
  - Lle nad oes arnom angen y data personol mwyach ond eich bod ei angen at ddiben arall megis amddiffyn hawliad cyfreithiol.

### Beth fyddwn ni'n ei wneud

- 8.2 Lle byddwn yn cyfyngu ar brosesu eich data byddwn yn parhau i'w storio ond ni fyddwn yn ei brosesu ymhellach.
- 8.3 Byddwn yn cadw cofnod gyda chyn lleied o wybodaeth ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i allu cyfyngu ar y prosesu yn y dyfodol, er enghraifft pan fydd angen i ni wneud copiâu wrth gefn o'r system efallai y bydd angen i ni wirio ein cofnodion i sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth yn cael ei ychwanegu'n ôl at restrau postio ac ati yn anfwriadol.
- 8.4 Os ydym wedi datgelu'r data personol dan sylw i drydydd parti byddwn yn hysbysu'r trydydd parti o'r cyfyngiad oni bai bod hyn yn amhosibl neu'n golygu ymdrech anghymesur. Ar gais byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw dderbynwyr trydydd parti.
- 8.5 Os byddwn yn penderfynu codi'r cyfyngiad am unrhyw reswm byddwn yn eich hysbysu'n ysgrifenedig.

## 9. Yr hawl i gludadwyedd data

### Beth yw'r hawl i gludadwyedd data?

- 9.1 Yr hawl i gludadwyedd data yw'r hawl i ofyn i'ch gwybodaeth gael ei hailddefnyddio at eich dibenion eich hun mewn amgylchedd gwahanol. Mae'n eich galluogi i drosglwyddo'ch data personol o amgylchedd TG yr Awdurdod i amgylchedd sefydliad arall, yn ddiogel a heb rwystro ei ddefnyddioldeb.
- 9.2 Mewn perthynas â gwaith yr Awdurdod, anaml iawn y bydd yr hawl i gludadwyedd data yn berthnasol.

### Pryd mae'n berthnasol

- 9.3 Mae'r hawl i gludadwyedd data yn berthnasol pan;
- Rydych chi wedi darparu'r wybodaeth i ni

- Mae'r prosesu yn seiliedig ar eich caniatâd (neu ar gyfer cyflawni contract)
- Pan gynhelir y broses trwy ddulliau awtomataidd.

### **Beth fyddwn ni'n ei wneud**

- 9.4 Pan fyddwch yn bodloni'r gofynion, byddwn yn darparu eich data yn rhad ac am ddim, ar ffurf a ddefnyddir yn gyffredin ac y gellir ei darllen gan beiriant.
- 9.5 Byddwn yn darparu'r wybodaeth o fewn mis i'ch cais ac eithrio pan fydd eich cais yn arbennig o gymhleth neu lle mae nifer o geisiadau wedi'u cyflwyno. Yn yr achos hwn gallwn ymestyn hyn hyd at ddau fis arall. Fodd bynnag, os bydd hyn yn angenrheidiol byddwn yn cysylltu â chi o fewn mis i'ch cais gwreiddiol i'ch hysbysu o hyn ac i egluro'r rhesymau pam.
- 9.6 Lle nad ydym yn cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'ch cais byddwn yn ysgrifennu atoch o fewn mis i egluro pam a rhoi gwybod i chi am eich hawl i gwyno (ceir rhagor o wybodaeth am sut i gwyno yn adran 14 y ddogfen hon).
- 9.7 Lle mae'r data'n cynnwys data personol sy'n ymwneud â pharti arall byddwn yn ystyried a yw darparu'r data hwn yn torri eu hawliau.

## **10. Sut i wrthwynebu i'r Awdurdod brosesu eich data personol (yr hawl i wrthwynebu)?**

### **Beth yw'r hawl i wrthwynebu?**

- 10.1 Mae gennych yr hawl i wrthwynebu unrhyw brosesu ar sail buddiannau cyfreithlon, cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu arfer Awdurdod swyddogol neu brosesu a wneir at ddibenion ymchwil, neu farchnata uniongyrchol
- 10.2 Gweler ein hysbysiadau preifatrwydd neu cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth ar y sail ar gyfer prosesu.

### **Gwrthwynebu ar sail tasgau cyfreithiol neu fuddiannau cyfreithlon yr Awdurdod**

- 10.3 Rhaid i'ch gwrthwynebiad fod ar 'sail eich sefyllfa benodol', nodwch beth yw hyn pan fyddwch yn gwneud y cais er mwyn ein helpu i ymateb i'ch cais.
- 10.4 Byddwn yn rhoi'r gorau i brosesu'r data personol oni bai:
- Bod gennym seiliau cyfreithlon dros y prosesu, sy'n diystyru'r buddiannau, yr hawliau a'r rhyddid a nodir yn eich cais
  - Mae'r prosesu ar gyfer sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

### **Gwrthwynebu ar sail tasgau cyfreithiol neu ddibenion ymchwil**

- 10.5 Rhaid i'ch gwrthwynebiad fod ar 'sail eich sefyllfa benodol', nodwch beth yw hyn pan fyddwch yn gwneud y cais er mwyn ein helpu i ymateb i'ch cais.
- 10.6 Lle mae'r prosesu data yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg budd y cyhoedd byddwn yn ystyried a oes angen parhau i'w brosesu er gwaethaf y gwrthwynebiad.

## **Gwrthwynebu ar sail marchnata uniongyrchol (cylchlythyrau ac ati)**

- 10.7 Byddwn yn rhoi'r gorau i brosesu eich data personol ar sail marchnata uniongyrchol cyn gynted ag y byddwch yn gofyn am hyn.  
**Beth fyddwn ni'n ei wneud**
- 10.8 Byddwn yn ymateb i'ch cais o fewn mis ac eithrio pan fydd eich cais yn arbennig o gymhleth neu lle mae nifer o geisiadau wedi'u cyflwyno. Yn yr achos hwn gallwn ymestyn hyn hyd at ddau fis arall. Fodd bynnag, os bydd hyn yn angenrheidiol byddwn yn cysylltu â chi o fewn mis i'ch cais gwreiddiol i'ch hysbysu o hyn ac i egluro'r rhesymau pam.
- 10.9 Lle nad ydym yn cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'ch cais byddwn yn ysgrifennu atoch o fewn mis i egluro pam a rhoi gwybod i chi am eich hawl i gwyno (ceir rhagor o wybodaeth am sut i gwyno yn adran 14 y ddogfen hon).
- 10.10 Lle mae'r data'n cynnwys data personol sy'n ymwneud â pharti arall byddwn yn ystyried a yw rhoi'r gorau i brosesu darparu'r data hwn yn torri eu hawliau.

## **11. Hawliau sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau awtomataidd.**

- 11.1 Nid yw'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn "gwneud penderfyniadau awtomataidd", sy'n golygu penderfyniadau a wneir amdanoch chi trwy ddulliau awtomatig yn unig heb unrhyw gysylltiad dynol o gwbl.

## **12. Gwirio hunaniaeth pan fyddwn yn derbyn cais hawliau unigol?**

- 5.17 Yn gyntaf byddwn yn gwirio bod gennym ddigon o wybodaeth i fod yn sicr o bwy ydych. Lle bo'r Awdurdod yn fodlon fel arall ynghylch pwy yw'r sawl sy'n gwneud y cais (er enghraifft, os gwnaed cais gan weithiwr presennol), gallwn ddewis hepgor y gofyniad i'r ymgeisydd ddarparu prawf adnabod. Fodd bynnag, os nad yw'r Awdurdod yn fodlon ynghylch pwy yw'r ceisydd bydd yn cymryd camau rhesymol i adnabod y ceisydd.
- 12.1 Os derbynnir cais am wybodaeth gan drydydd parti, bydd yr Awdurdod yn cymryd pa gamau bynnag y mae'n eu hystyried yn rhesymol i fodloni ei hun bod gan y trydydd parti'r Awdurdod priodol i wneud y cais.
- 12.2 Os ydych yn rhiant/gwarcheidwad plentyn, bydd angen i ni ystyried a all y plentyn roi caniatâd i chi weithredu ar ei ran.

## **13. Cyfarfod archwilio a chofnodi**

- 13.1 Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnodion o:
- Y ceisiadau a gaiff;
  - cynhyrchion 'crai' unrhyw chwiliadau a wneir;
  - prif archwiliad/copi wedi'i olygu o'r wybodaeth y bwriedir ei datgelu;
  - unrhyw ohebiaeth gyda/yr ymateb terfynol a roddwyd i'r ymgeisydd; a

- unrhyw gyngor neu gofnodion eraill a dderbyniwyd neu a baratowyd wrth ymdrin â'r cais.

#### **14. Ein gweithdrefn cwynion**

- 14.1 Os nad ydych yn fodlon â'r ffordd yr ydym wedi delio â'ch cais hawliau unigol neu unrhyw gamau gweithredu eraill mewn perthynas â'r polisi hwn, gallwch droi at ein trefn gwyno fewnol, y Comisiynydd Gwybodaeth neu'r llysoedd.
- 14.2 Bydd y Prif Weithredwr yn ymdrin ag unrhyw gŵyn ysgrifenedig am y ffordd yr ymdriniwyd â chais ac am ba wybodaeth a ddatgelwyd. Gellir cysylltu â'r Prif Weithredwr yn:

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol  
16-18 New Bridge St, Llundain EC4V 6AG  
Ffôn: 0207 389 8030  
Ffacs: 0207 389 8040

- 14.3 Os ydych yn dal yn anfodlon, mae gennych yr hawl i gyfeirio'r mater at y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF  
Ffôn: 01625 545 745  
Ffacs: 01625 524 510  
E-bost: [enquiries@ico.gsi.gov.uk](mailto:enquiries@ico.gsi.gov.uk)

## Rheolaeth Fersiwn

Fersiwn	Statws	Disgrifiad o'r Fersiwn	Dyddiad Cwblhau
1.0	Drafft	Deddf Diogelu Data – Polisi Hawliau Unigol	24/04/2018
1.1	Cymera dwywyd	Deddf Diogelu Data – Polisi Hawliau Unigol	07/06/2018
1.1	Adolygiadau	Adolygwyd	11/2021
1.2	Cymera dwywyd	Diweddarwyd y cyfeiriad	11/2023